

## JONES, WILLIAM TUDOR (1865 - 1946), gweinidog Undodaidd ac athronydd

**Enw:** William Tudor Jones  
**Dyddiad geni:** 1865  
**Dyddiad marw:** 1946  
**Priod:** Helen Jones (née Clarke)  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog Undodaidd ac athronydd  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Ysgolheictod ac leithoedd  
**Awdur:** Daniel Davies

Ganwyd 8 Medi 1865, yn Strata Florida, ger Pontrhydfendigaid, Sir Aberteifi. Addysgwyd yn ysgol y pentref, a bu'n athro yno am gyfnod ac yng Ngoginan, Sir Aberteifi. Fel myfyriwr yng ngholegau'r brifysgol yn Aberystwyth a Chaerdydd, paratôdd ar gyfer gweinidogaeth y Methodistiaid Calfaidd ond yn ddiweddarach daeth yn weinidog ar eglwysi Undodaidd yn Abertawe (1899-1906), yn Wellington, N.Z. (1906-10), yn Islington (1910-15), ac ym Mryste (1915-33). Yn ystod ei weinidogaeth yn Abertawe astudiodd am dymor yn Jena, lle y dylanwadodd Rudolf Eucken yn ddirfawr arno. Gydag amser cydnabuwyd ef fel esboniwr a chefnogwr blaenaf dysgeidiaeth Eucken, sy'n ceisio gwrthbrofi pob dehongliad materol o hanes a phwysleisio realiti bywyd ysbrydol hollgyffredinol fel yr unig allwedd i 'anfodlonrwydd dwyfol' a datblygiad moesol dyn; ac nid yw ei athroniaeth ef ei hun ond ymgais i egluro a datblygu ymhellach y duedd idealyddol o feddwl a geir yn ' *Actifaeth* ' Eucken. Cynnwys ei gyhoeddiadau gyfieithiadau o rai o brif weithiau ac amryw esboniadau ar athroniaeth gyffredinol Eucken (gweler rhestr yn *Who's Who*); yn eu plith ceir *Nature, Thought and Personal Experience* (1926); *The Reality of the Idea of God* (1929); *Contemporary Thought of Germany* (2 cyf. 1930). Yr oedd hefyd yn olygydd y *Library of Philosophy and Religion* a'r *Library of Contemporary Thought*. Yr oedd yn M.A. (Bristol) a Ph.D. (Jena). Priododd, 1892, Helen Clarke, Northampton. Bu farw 12 Mehefin 1946 a chladdwyd yn Torquay, lle yr ymddeolodd yn 1933.

### Awdur

Daniel Davies, (1893 - 1961)

### Ffynonellau

*The Inquirer*, Gorffennaf 1946

*Who's who?*, 1946

*Adroddiad Blynyddol Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1946-47

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20748912](https://www.wikidata.org/wiki/Q20748912)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

